# Castio concrid wedi ei atgyfnerthu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio sut i gastio concrid wedi ei atgyfnerthu. Mae'n ymwneud â'r gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud wrth gastio concrid wedi ei atgyfnerthu.

Mae'r safon hon yn cynnwys:

- gwneud y paratoadau sy'n ofynnol i gefnogi'r broses gastio
- castio concrid yn unol â'r manylebau.

Os ydych yn defnyddio offer neu beiriannau bydd angen eich bod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sydd angen castio concrid wedi ei atgyfnerthu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg a pholisïau a gweithdrefnau'r cwmni
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. gwneud eich gwaith yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
4. dewis a pharatoi'r offer, y cyfarpar a'r deunyddiau gofynnol
5. gwirio er mwyn cadarnhau bod amgylchedd gwaith diogel wedi cael ei sefydlu
6. paratoi a gosod estyllod yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
7. sefydlu a sicrhau atgyfnerthiad yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
8. dewis concrid o'r math, deunydd, ansawdd a gradd benodol
9. castio a chywasgu concrid i ffurfio cydrannau o'r cryfder, siâp a gorffeniad penodedig
10. monitro'r broses galedu a nodi pryd mae'r concrid wedi caledu
11. taro estyllod heb niweidio'r concrid
12. sefydlu diogelwch ar gyfer concrid wedi ei atgyfnerthu sydd newydd ei gastio
13. defnyddio, cynnal a chadw a storio offer, cyfarpar a deunyddiau yn ddiogel ac mewn cyflwr glân y gellir eu gwasanaethu
14. gwaredu gwastraff a deunydd dros ben i leihau'r risg amgylcheddol, yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol
15. gwneud eich gwaith mewn ffordd sy'n achosi'r niwed lleiaf posibl i'r ardal gyfagos, defnyddwyr eraill y safle ac unrhyw un arall a allai fod wedi ei effeithio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â chastio concrid wedi ei atgyfnerthu
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y dasg i'w chyflawni
3. y gofynion a'r gweithdrefnau ar gyfer cael mynediad i'r safle
4. y gofynion penodol ar gyfer cynlluniau trwydded waith
5. y mathau o arwyddion a rhwystrau amddiffynnol a ddefnyddir yn y diwydiant ffensio
6. y rhesymau dros reoli traffig wrth weithio wrth ochr priffyrdd a systemau trafnidiaeth eraill
7. ble i gael y cyfarwyddiadau a'r manylebau sy'n ofynnol i wneud y gwaith
8. y mathau o offer, cyfarpar a deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer castio concrid wedi ei atgyfnerthu a sut i baratoi, defnyddio a chynnal a chadw'r rhain yn ddiogel ac yn gywir
9. y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddir i greu estyllod
10. y rhesymau pam y caiff concrid ei atgyfnerthu
11. y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddir fel atgyfnerthiad
12. sut a pham y defnyddir cyfryngau rhyddhau i baratoi estyllod
13. y peryglon a'r gofynion diogelwch sydd yn gysylltiedig â chyfryngau rhyddhau
14. y deunyddiau a'r cymarebau a ddefnyddir i baratoi concrid
15. y dulliau a ddefnyddir ar gyfer cymysgu, castio, cywasgu, gorffen a chaledu concrid
16. sut i wybod pan fydd y concrid wedi caledu
17. sut gall amodau amgylcheddol effeithio ar y broses o galedu concrid
18. pam y mae'n bwysig sefydlu diogelwch ar gyfer concrid sydd newydd galedu
19. terfynau eich cyfrifoldeb wrth ymdrin ag anawsterau sydd yn codi yn ystod y gwaith
20. y gofynion cyfreithiol sydd yn rheoli gwaredu gwastraff a deunyddiau dros ben
21. y gofynion storio ar gyfer offer a chyfarpar
22. sut i leihau effaith eich gwaith ar yr ardal gyfagos, defnyddwyr eraill y safle ac unrhyw un arall a allai fod wedi ei effeithio

## Geirfa

Gallai cyfarwyddiadau a manylebau gynnwys:

- cynlluniau/darluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- canllawiau'r cynhyrchydd
- gofynion y cwsmer
- safonau ansawdd e.e. BSI, CE
- cyfarwyddiadau llafar

Castio concrid wedi ei atgyfnerthu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFe10 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffensio |
| **Cyfres/Set** | Ffensio |
| **Geiriau Allweddol** | estyllod; ffensio; concrid; atgyfnerthu |